# Cylchlythyr Parc Natur Penglais Newsletter

Rhif 49 Hydref 2014 Golygydd – David Kirby, Hafodwen, Cae Melyn, Aberystwyth SY23 2HA

*Copïau Electronig ar gael ar gais gan - dkpnp@tiscali.co.uk*


## Chris Foster

Yn gyntaf, newyddion trist. Bu Chris Foster yn farw yn sydyn ar 27ain mis Mehefin eleni. Ymunodd Chris â'r pwyllgor yn 2011. Danfonwn cydymdeimladau i'w bartner Hilary.

## Eisiau aelodau newydd

Does gan y pwyllgor dim maint penodol. Rydym wedi colli sawl aelod yn diweddar ac heb llenwi eu llefydd eto. Mae sawl un yn weddol hen [mae'ch golygydd ymysg y rhain]. Byddai tenu aelodau ieuanc yn llesol, ond gwerthfawrogir unrhyw un sydd yn defnyddio a gwerthfawrogi'r Parc. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch âg aelod o'r pwyllgor os gwelwch yn dda neu dewch i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol [manlynion isod].

## Cylchlythyr ar wefan GAG

Diolch i Laurie Wright a'r Grŵp Aberystwyth Gwyrddach, mae'r cylchlythyr hon nawr ar gael fel ddogfen pdf ar y we ar http://www.aber-gag.org.uk .
Darperir cyfieithiadau Cymraeg gan y Cynghorydd Jeff Smith.

## Mae dosbarthu copïau papur yn lleol yn parhau

Mae'r pwyllgor yn dymuno parhau gyda dosbarthu copïau papur yn Saesneg i dai o amgylch y Parc.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhelir y CCB ar dydd mercher Hydref 26ain 2014 ar 7:30pm yn yr Ystafell Wythongl, Canolfan Methodistaidd Sant Paul, Morfa Mawr. Dilynnir busnes gan araith am coedwigoedd cymunedol. Dewch i ddangos eich cefnogaeth at Parc Natur Penglais.

## Codi arian gan y Grŵp Cefnogi

Mae Len yn parhau i arwain ein cyswllt ag Amgylchedd Cymru. Cafwyd £1500 ymhellach at brosiectau yn y Parc yn tymor yr hydref. Mae'r manlynion isod ar ôl sawl sylw ar brosiectau a gyflawnwyd yn y blynyddol ariannol diwethaf. Amod o'r gyllid yw ein bod yn darparu cyfraniad cyfatebol fel oriau a dreuliwyd gan wirfoddolwyr. Mae angen diolch i bawb a fu'n helpu, gan rhoi sylw arbennig i'r Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prifysgol Aberystywth, sydd yn parhau i wneud cyfraniad werthfawr iawn.



Clirio llaid o'r llwybr

## Planu coed ifanc, mis Tachwedd

Mae'r bron iawn o'r 200 neu fwy o goed ifanc a blaniwyd yn dal i fyw. Mae'r rhai sydd wrth ffin y llwyn a blaniwyd o dan y coed aeddfed yn corachaidd ac maent wedi dioddef yn y sychder diwethaf. Roedd pob un yn llai nag 1 metr yn uchder pan planiwyd nhw. Mae'r rhai uchaf wedi cyrraedd 2 metr yn uchder erbyn hyn.

## Mis Mawrth symud llaid

Ar ddechrau mis chwefror 2014, cawsom gwybod gan Amgylchedd Cymru bod ganddynt ychydig bach o arian yn eu cyllid i brosiect fach cyn belled a chyflawnir hyn o fewn y blwyddyn ariannol. Penderfynodd Len Kersley, wrth ymgynghori ag eraill, dylem gynnig i glirio'r llaid a fu'n casglu ar hyd y prif lwybr drwy'r Parc ac ar rhai o'r grisiau. Derbyniwyd hyn ac fe drefnwyd 2 sadwrn gwaith ar 8fed a 15fed o fis Mawrth. Yn anffodus, nad oedd Gwirfoddolwyr Cadwraeth y Prifysgol ar gael i gynorthwyo ar y dyddiau hyn.

Ar y cyfan, dros y dau ddiwrnod, bu 18 o bobl yn helpu gyda'r gwaith, gan roi tua 50 awr. Ein addewid i Amgylchedd Cymru i gael yr arian oedd 7 o bobl yn roi 28 awr! Diolch i bawb a fu'n helpu yn yr ymdrech ardderchog hyn, gan gynnwys Peter Drake a drefnodd pethau ar nodyn byr iawn. Unwaith eto, rydym wedi dangos mewn ffordd ymarferol iawn faint ydym ni'n gwerthfawrogi Parc Natur Penglais, a'n parodrwydd i helpu wneud hi'n lle arbennig iawn i'n cymuned.

## Dyddiau Hyfforddi Sgiliau Cadwraeth

Un rhan o'r cefnogaeth gan Amgylchedd Cymru oedd cyllido dyddiau hyfforddi yn y Parc ar sgiliau ymarferol cadw'r amgylchedd, a arolygwyd gan Peter Drake, contractiwr amgylcheddol leol. Gwerthfawrogir y sesiynau yma'n fawr gan y myfyrwyr, a rhai ohonynt yn bwriadu dilyn gyrfaoedd yn rheoli cadwraeth a phynciau perthnasol. Yn 2013, adeiladwyd 22 gris pren yn y llwybr sydd yn rhedeg o dop Danycoed i Lanerch y Ffawydd. Bu glaw trwm yn gwtogi ar y diwrnod hyfforddi. Cafwyd cynnydd gwell ar yr ail diwrnod. Roedd angen trydydd diwrnod gyda wirfoddolwyr lleol i gwblhau'r prosiect. Bydd y prosiect eleni yn cynnwys gwaith wrth fynedfa i'r Parc o dop Danycoed.

### Sadwrn Gwaith 11 Hydref 2014 – Rheoli celyn

Gyda chyllid gan Amgylchedd Cymru, trefnwyd Diwrnod Gwaith Coedwig ar dydd sadwrn 11 mis Hydref 2014, gyda ffocws ar deneuo'r celyn ifanc a ffynnodd yn y tywydd twym diweddar. Gobeithio bydd Gwirfoddolwyr Cadwraeth y Prifysgol yn cyfrannu o dan arolygaeth contractiwr gwledig Peter Drake. Er hynny, mae pob croeso i wirfoddolwyr o'r cymuned leol sydd am gynorthwyo gan mae'u gwaith yn hanfodol i gwblhau'r cyfraniad cyllid gan y Grŵp Cefnogi.

Nid oes angen profiad blaenorol ac fe ddarperir yr holl offer a chyfarwyddiadau. Cwrdd yn Llanerch y Ffawydd ar y prif lwybr drwy'r coedwig o 10am ar dydd Sadwrn 11 Hydref a gwnewchh eich gyfaniad i'r iechyd a harddwch y gwarchodfa natur hwn.



Amgylchedd Cymru'n croesawu ymwelwyr

## Ymweliad swyddogion Amgylchedd Cymru 26/06/14


Roedd gan 7 arweinydd prosiect AG cyfarfod yn y Llyfrgell Genedlaethol yn mis mehefin eleni. Cymerasant y cyfle i gael taith tywys o'r Parc [arweinwyd gan Len] ar ôl cinio. Bu un ohonynt yn canfod arogl unigryw y ffwngws cingroen (*stinkhorn*) ymyl y cwrs golff. Canfododd y ffynnon. Bu'r cingroen mewn cyflwr gwych y diwrnod hwnnw. Roedd wedi dechrau pydru 24 awr yn hwyrach.



Ffwngws Cingroen

## Rhifyddion Ymwelwyr


Mae rhifyddion ymwelwyr wrth y tri brif mynedfa i'r Parc. Adroddwyd y canlyniadau tro diwethaf mewn cylchlythyr yn 2004. Mae'r cyfrifau wrth Giat y Prifathro tua'r un peth a'r ddau giat arall at eu gilydd. Ystyrir felly mae'r traffig wrth y giat yma yn rhoi brasamcan deg o'r nifer o ymwelwyr i'r Parc. Wrth gwrs, cyfrifir rhai ymwelwyr dwywaith a rhai byth o gwbl. Mae gen i niferoedd am 2004 a'r 2 flynedd diwethaf. Maent yn sylweddo o gyson ar dua 32,000 bob blwyddyn. Mae'r dydd Sadwrn yw'r diwrnod mwyaf boblogaidd yr wythnos ac mae'r Gwanwyn yw'r tymor mwyaf boblogaidd. Daw'r bron iawn o ymwelwyr tra bod golau dydd.




Ymwelwyr gan chwarter dros 3 mlynedd

## Ymwelwr brenhiniol prin i'r parc – *Anax ephippiger*

Bu'ch golygydd yn synnu'n fawr tra'n cerdded a'i gŵn drwy'r hen chwarel yn gynnar yn y bore 13eg mis Tachwedd y llynedd pan ddaeth ar draws gwas y neidr mawr (*dragonfly*) ar y llawr. Gan mae ei wraig yn brwdfrydig am y fath anifeiliaid, aeth a'r gwas y neidr adref iddi. Roedd yn ymerodrwr crwydrol (*Vagrant Emporer*) gwrywaidd – cadarnhawyd hyn gan y cofnodwr gwas y neidr y Sir. Dyma'r adroddiad gyntaf o'r rhywogaeth hwn yng Ngheredigion [gweler y map © Cymdeithas Gwas y Neidr Prydain]. Cawsom yr Ymerodrwr yn fyw am gwpl o ddyddiau wrth ein pwl yn yr ardd, ond bu'n farw wedyn. Mae ei gorff nawr yn gorwedd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd.


Adroddiadau o Was y Neidr Ymerodrv
Adroddiadau. Diemwnt = 2013
Cylch = 2000-2012


Cartref naturiol yr ymerodrwr yw Affrica is-Sahara. Maent yn cenhedlu mewn pyllau sydd yn debyg o sychu fel bod ganddynt datblygiad larfa sydyn, ac, o dan ymgylchiadau amgylcheddol addas, gallant allddod mewn niferoedd mawr. Gall gwyntoedd ogleddol eu chwythu i Ynysoedd Prydain. Maent yn cael eu cofnodi gan y mwyaf wrth arfordir de Loegr.

## Pedwerydd Gwobr Cymunedol y Faner Werdd

Mae Len Kersley wedi goruwchwilio'n pedwerydd cais blynyddol llwyddiannus am Wobr Cymunedol y Faner Werdd. Mae'r gwobr urddasol hwn yw'r meincnod genedlaethol am parciau a mannau wyrdd, a'i redir gan Cadw Cymru'n Daclus gan gynnig cydnabyddiaeth i'r mannau wyrdd gorau yn yr wlad (gweler wwwgreenflagaward.org/cymraeg). Mae copiau o'r tystysgrif yn ymddangos ar hysbysbyrddau'r PNP. Awgrymwyd gan sylwadau ysgrifennedig gan y barnwr bod PNP yn cael ei hasesu mwy fel parc trefol ac yn llai fel gwarchodfa natur fel ynghynt. Rydym ar hyn o bryd yn ansicr a fyddem yn ymgeisio eto blwyddyn nesaf.

## Arolwg Ymlusgiaid

Mae sawl darn bach o toeau crychlyd o gwmpas yr hen chwarel. Plis peidiwch a'u symud. Maent yn rhan o arolwg ymlusgiaid a drefnir gan yr ymddiriedolaeth bywyd gwyllt.


Turiwr ar waith 2007

## Worgate – Datblygiad Ffordd yr Ysbyty

Mae'r saga o bryder PNP parthed a'r datblygiad o'r tir a fu'n gartref i'r clwb cymdeithasol ac Ysbyty Ffordd y Gogledd yn mynd yn ol i 2007 pan dinistriwyd yr adeiladau gan Merlin Homes gan hefyd cloddio ar y llethr tu ôl, gan dynnu rhannau o'r wal ffiniau yr ystad Penglais. Bu hyn i gyd yn achosi i'r llethr fod yn fwy serth a bu'r wastraff o'r chwarel wrth y top yn anstabl fel canlyniad. Yn gynnar yn 2010, daeth i sylw Merlin bod y pridd yn symud wrth dop y graig ac buont yn tynnu planhigion heb ganiatad i helpu yn eu hymholiadau. Roedd sawl hollt mawr wedi agor yn y pridd. Cadarnhawyd gan arolygwyr o'r Cyngor fod y llethr yn beryglus o anstabl.

Terfynwyd gwaith adeiladu ar y safle yn ystod y tirwasgiad, ond bu'r gwaith yn ail-ddechrau yn gynnar eleni gan cwmni o'r enw Vallis Facilities Management [Merlin o ran bopeth ond ei enw]. Prynnwyd y fflatiau gan gwmni o'r enw Condor ac fe gytunwyd ar y gwaith canlynol i ddatrys, ar ddiwed, y problem ag achoswyd gan cloddio'r llethr:

- ☐ Adeiladu wal rhwng top y rhwyd (a fydd yn cefnogi'r wyneb) a gweddill tir PNP. Wrth i mi ysgrifennu, ni welwyd gwaith adeiladu i adeiladu'r wal hwn.
- ☐ Gorfodi nhw i gymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r rhwyd ac i wneud y gwaith
- ☐ Mae Condor wedi prynnu hawddfraint i ganiatáu mynediant iddynt (gyda rhybudd heblaw am argyfyngau) i'r tir at bwrpas o gynnal a chadw'r gwaith



Taflu cerrig llaes o wal y ffin lawr y llethr



Rhwyd fel a gwelwyd o dop y llethr

Mae'ch olygydd yn meddwl mae'r llethr yn peryglus oherwydd :-

- Mae'r llethr yn serth.
- Mae cabl a phiniau metel wrth y top.
- Natur y wal, a'r slabiau galed ar y gwaelod.

Mae fe'n ymgynghori pobl i osgoi top y llethr nes bo'r wal wedi cael ei hadeiladu.

Monitro Blychau Adar

| | 2013 | 2014 |
|---|---|---|
| Eisteddiadau y corhedydd las | 11 | 13 |
| | | |
| Dyddiad yr ŵy gyntaf | 24-Apr | 16-Apr |
| Dyddiad pan fod pob eisteddiad yn gyflawn | 09-May | 28-Apr |
| | | |
| Nifer o ŵyau | 80 | 101 |
| Maint eisteddiad (ar gyfartaledd) | 7.3 | 7.8 |
| | | |
| Deorwyd | 62 | 92 |
| Maint y nythiad (ar gyfartaledd) | 5.6 | 7 |

Mae Moira Convery a 3 cynorthwy-ydd yn parhau i fonitro'r 29 o flychau adar sydd wedi'u hatodi i goed yn y Parc. Nid yw'r niferoedd gyfan am 2014 ar gael eto. Atodir tabl o rai niferoedd o'r gorhedydd las (*blue tit*) a gynhyrchwyd pan ofynnodd y rhaglen Springwatch i'r BTO os oedd ganddynt ffigyrau a all gadarnhau os oedd yr adar yn cenhedlu yn gynt yn y tymor nag yn y gorffenol.
Maint ein sampl yn fach, ond mae ein ffigyrau'r gyson ag y tueddiad genedlaethol. Gwellwyd perfformiad cenedlu y corhedydd las eleni, o bosib o achos tywydd well yn y gwanwyn. Er hynny, roedd y niferoedd am y corhedydd mawr (*great tit*) yn waeth er mae'r cywion y 2 rywogaeth yn hoff iawn o lindys.